STATUTORY INSTRUMENTS

# 2020 No. 1255

## CONSTITUTIONAL LAW

## REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

The Senedd Cymru (Disqualification) Order 2020

| | |
|---|---|
| *Made* | *11th November 2020* |
| *Coming into force* | *12th November 2020* |

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2020 Rhif 1255

## Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

## CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11eg Tachwedd 2020* |
| *Yn dod i rym* | *12fed Tachwedd 2020* |

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2020 No. 1255

# CONSTITUTIONAL LAW

# REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

## The Senedd Cymru (Disqualification) Order 2020

| | |
|---|---|
| *Made - - - -* | *11th November 2020* |
| *Coming into force - -* | *12th November 2020* |

At the Court at Windsor Castle, the 11th day of November 2020

Present,

The Queen's Most Excellent Majesty in Council

In accordance with section 16(6) of the Government of Wales Act 2006(**a**) a draft of this Order was laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru.

Accordingly, Her Majesty, in pursuance of sections 16(1) and (5) and 157(2) of that Act, is pleased, by and with the advice of Her Privy Council, to order as follows:

**Title and commencement**

**1.**—(1) The title of this Order is the Senedd Cymru (Disqualification) Order 2020.

(2) It comes into force on 12th November 2020 but articles 2 and 3 only have effect for the purposes of a Senedd Cymru election at which the poll is held on or after 5th April 2021.

**Designation of disqualifying offices**

**2.** The offices described in the Schedule are designated as offices disqualifying the holders of those offices from being Members of the Senedd.

**Revocation**

**3.** The National Assembly for Wales (Disqualification) Order 2015(**b**) is revoked.

*Richard Tilbrook*
Clerk of the Privy Council

(**a**) 2006 c. 32. Relevant amendments were made to section 16 by the Senedd and Elections (Wales) Act 2020 (anaw 1).
(**b**) S.I. 2015/1536.

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L

# 2020 Rhif 1255

# Y GYFRAITH GYFANSODDIADOL

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *11eg Tachwedd 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *12fed Tachwedd 2020* |

Yn y Llys yng Nghastell Windsor, ar yr 11eg dydd o Dachwedd 2020

Yn bresennol,

Ei Hardderchocaf Fawrhydi'r Frenhines yn y Cyfrin Gyngor

Yn unol ag adran 16(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**a**) gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

Gan hynny, mae'n bleser gan Ei Mawrhydi, yn unol ag adrannau 16(1) a (5) a 157(2) o'r Ddeddf honno, yn ôl cyngor a chyda chyngor Ei Chyfrin Gyngor, orchymyn fel a ganlyn:

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020.

(2) Daw i rym ar 12fed Tachwedd 2020 ond nid yw erthyglau 2 a 3 ond yn cael effaith at ddibenion etholiad i Senedd Cymru pan gynhelir y bleidlais ar neu ar ôl 5ed Ebrill 2021.

**Dynodi swyddi sy'n anghymhwyso**

**2.** Mae'r swyddi a ddisgrifir yn yr Atodlen wedi eu dynodi'n swyddi sy'n anghymhwyso deiliaid y swyddi hynny rhag bod yn Aelodau o'r Senedd.

**Dirymu**

**3.** Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015(**b**) wedi ei ddirymu.

*Richard Tilbrook*
Clerc y Cyfrin Gyngor

---

(**a**) 2006 p. 32. Gwnaed diwygiadau perthnasol i adran 16 gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1).
(**b**) O.S. 2015/1536.

## SCHEDULE

Article 2

## Offices disqualifying holders from membership of the Senedd

| *Offices and bodies in respect of which there are disqualifying offices* | *The disqualifying offices* |
|---|---|
| A National Park authority for a National Park in Wales | All members |
| A tribunal constituted under section 27 of, and Schedule 3 to the Education Act 2005(a) | All members |
| A tribunal referred to in paragraph 10 of Schedule 26 to the School Standards and Framework Act 1998(b) | All members |
| Adjudication Panel for Wales | All members |
| Advisory Committee on Dangerous Pathogens | All members |
| The advisory committee for Wales established under section 5(1) of the Food Standards Act 1999(c) | All members |
| Advisory, Conciliation and Arbitration Service | All members of the Council |
| Agricultural Land Tribunal for Wales | All members |
| Arts Council of Wales | All members |
| Big Lottery Fund | All members appointed under paragraph 1 of Schedule 4A to the National Lottery etc. Act 1993(d) or of a committee established under paragraph 7(1)(b) of that Schedule |
| The Board of Community Health Councils in Wales | Chair, and members appointed by the Welsh Ministers under regulation 34(1)(f) of the Community Health Councils (Constitution, Membership and Procedures) (Wales) Regulations 2010(e) |
| Board of Medical Referees | All members appointed by the Welsh Ministers(f) |
| Boundary Commission for Wales | Commissioners and Secretary |
| British Broadcasting Corporation Board | All members |
| British Council | Chair and Chief Executive |
| British Tourist Authority | The member appointed by the Welsh Ministers |
| British Transport Police Authority | All members |
| Certification Officer and any assistant certification officer having functions under the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992(g) | Certification Officer and any Assistant Certification Officer |
| Citizen Voice Body | Non-executive members |
| Consumer Council for Water | All members of the Council and each regional committee of the Council established under section 27A of the Water Industry Act 1991(h) |
| Channel Four Television Corporation | All members |
| Community Health Councils | All members appointed under regulations 3(1), 6, 7 and 8, and members co-opted by the Welsh Ministers under regulation 3(3A), of the Community Health Councils (Constitution, Membership and Procedures) (Wales) Regulations 2010(i) |

# YR ATODLEN

Erthygl 2

## Swyddi sy'n anghymhwyso'r deiliaid rhag bod yn Aelodau o'r Senedd

| *Swyddi a chyrff y mae swyddi sy'n anghymhwyso mewn cysylltiad â hwy* | *Y swyddi sy'n anghymhwyso* |
|---|---|
| Amgueddfa Genedlaethol Cymru | Yr Ymddiriedolwyr a benodwyd gan Weinidogion Cymru |
| Yr Archwilydd Achosion Annibynnol dros yr Adran Gwaith a Phensiynau | Yr Archwilydd Achosion Annibynnol |
| Yr Asiantaeth Safonau Bwyd | Yr holl aelodau |
| Awdurdod Cyllid Cymru | Y Cadeirydd ac aelodau anweithredol eraill |
| Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd | Yr holl aelodau |
| Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol | Yr holl aelodau |
| Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | Yr holl aelodau |
| Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain | Yr holl aelodau |
| Awdurdod Iechyd Arbennig sy'n cyflawni swyddogaethau yn rhannol neu'n gyfan gwbl mewn cysylltiad â Chymru | Y Cadeirydd a'r holl aelodau, ac eithrio aelod sydd hefyd yn gyflogai i'r Awdurdod |
| Awdurdod y Marchnadoedd Nwy a Thrydan | Yr holl aelodau |
| Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol | Yr holl aelodau |
| Yr Awdurdod Monitro Annibynnol ar gyfer Cytundebau Hawliau Dinasyddion | Yr holl aelodau |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru | Yr holl aelodau |
| Yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr | Yr holl aelodau |
| Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Yr holl aelodau |
| Awdurdod Twristiaeth Prydain | Yr aelod a benodwyd gan Weinidogion Cymru |
| Yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol | Yr holl aelodau |
| Bwrdd Canolwyr Meddygol | Yr holl aelodau a benodwyd gan Weinidogion Cymru(a) |
| Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru | Y Cadeirydd a'r aelodau a benodwyd gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 34(1)(dd) o Reoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010(b) |
| Y Bwrdd Cynghori ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | Y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd |
| Bwrdd Cynghori Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân Cymru | Yr holl aelodau |
| Bwrdd Cynghorol Cymru ar Ddatblygu Diwydiannol | Yr holl aelodau |
| Bwrdd y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig | Yr holl aelodau |
| Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ardal yng Nghymru | Yr holl aelodau, ac eithrio aelod sydd hefyd yn gyflogai i'r Bwrdd |
| Y Bwrdd Ystadegau a sefydlwyd gan Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007(c) | Yr holl aelodau |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | Y Comisiynwyr |
| Y Comisiynydd Gwybodaeth | |

| | |
|---|---|
| Competition and Markets Authority | All members |
| Development Bank of Wales Public Limited Company or any wholly owned subsidiary of Development Bank of Wales Public Limited Company | All Directors |
| Education Workforce Council | All members |
| Emergency Ambulance Services Committee | Chair |
| Employment Tribunals and Employment Appeal Tribunal | All members |
| Financial Conduct Authority | All members |
| Fire and Rescue Service | Inspector or Assistant Inspector appointed under section 28 of the Fire and Rescue Services Act 2004(j) |
| Firefighters' Pension Scheme Advisory Board for Wales | All members |
| First-tier tribunal | All members |
| Food Standards Agency | All members |
| Future Generations Commissioner | Advisory Panel |
| Gas and Electricity Markets Authority | All members |
| Health and Safety Executive | All members |
| Higher Education Funding Council for Wales | All members, other than a member who is also an employee of the Council |
| Human Fertilisation and Embryology Authority | All members |
| Human Tissue Authority | All members |
| Independent Adjudicator to Local Authorities in Wales | |
| Independent Case Examiner for the Department of Work and Pensions | The Independent Case Examiner |
| Independent Groundwater Complaints Administrator appointed under section 21 of and paragraph 27 of Schedule 7 to the Cardiff Bay Barrage Act 1993(k) | |
| Independent Monitoring Authority for the Citizens' Rights Agreements | All members |
| Independent Office for Police Conduct | All members |
| Information Commissioner | |
| Joint Nature Conservation Committee | All members |
| Judicial Appointments Commission | Commissioners |
| Judicial Appointments and Conduct Ombudsman | |
| Law Commission | Commissioners and Non-Executive Board members |
| Local Government Pension Scheme Advisory Board | Chair and Deputy Chair |
| Local Health Board for an area in Wales | All members, other than a member who is also an employee of the Board |
| Marine Management Organisation | All members |
| Meat Promotion Wales | All members |
| Mental Health Review Tribunal for Wales | All members |
| National Employment Savings Trust Corporation | All members |

| | |
|---|---|
| Comisiwn y Gyfraith | Y Comisiynwyr ac aelodau anweithredol y Bwrdd |
| Y Comisiwn Ffiniau i Gymru | Y Comisiynwyr a'r Ysgrifennydd |
| Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol | Y Comisiynwyr |
| Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol | Y Panel Cynghori |
| Comisiynydd Heddlu a Throseddu fel y'i sefydlwyd gan adran 1 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011(ch), ac unrhyw Ddirprwy a benodir gan y Comisiynydd o dan adran 18 o'r Ddeddf honno | |
| Corff Adnoddau Naturiol Cymru a adwaenir fel Cyfoeth Naturiol Cymru | Y Prif Weithredwr, Y Cadeirydd a'r aelodau |
| Corff Llais y Dinesydd | Aelodau anweithredol |
| Corfforaeth Deledu Channel Four | Yr holl aelodau |
| Corfforaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol dros Gynilion Cyflogaeth | Yr holl aelodau |
| Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur | Yr holl aelodau |
| Cynghorau Iechyd Cymuned | Yr holl aelodau a benodwyd o dan reoliadau 3(1), 6, 7 ac 8, ac aelodau a gyfetholwyd gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 3(3A), o Reoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2010(d) |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | Yr holl aelodau |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | Yr holl aelodau, ac eithrio aelod sydd hefyd yn gyflogai i'r Cyngor |
| Cyngor Chwaraeon Cymru a adwaenir fel Chwaraeon Cymru | Yr holl aelodau |
| Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr | Holl aelodau'r Cyngor a phob pwyllgor rhanbarthol o'r Cyngor a sefydlwyd o dan adran 27A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991(dd) |
| Cyngor y Gweithlu Addysg | Yr holl aelodau |
| Cyngor Partneriaeth y Gymraeg | Yr holl aelodau |
| Y Cyngor Prydeinig | Y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr |
| Cymwysterau Cymru | Yr holl aelodau |
| Development Bank of Wales Public Limited Company neu unrhyw is-gwmni o dan berchnogaeth lwyr Development Bank of Wales Public Limited Company | Yr holl Gyfarwyddwyr |
| Dyfarnwr Annibynnol Awdurdodau Lleol Cymru | |
| Gofal Cymdeithasol Cymru | Yr holl aelodau |
| Y Gronfa Diogelu Pensiynau | Yr holl aelodau, a'r Ombwdsmon ar gyfer Bwrdd y Gronfa Diogelu Pensiynau a benodwyd o dan adran 209 o Ddeddf Pensiynau 2004(e) ac unrhyw ddirprwy i'r Ombwdsmon hwnnw a benodwyd o dan adran 210 o'r Ddeddf honno |
| Y Gronfa Loteri Fawr | Yr holl aelodau a benodwyd o dan baragraff 1 o Atodlen 4A i Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993(f) neu holl aelodau pwyllgor a sefydlwyd o dan baragraff 7(1)(b) o'r Atodlen honno |
| Y Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau | Y Cyfarwyddwyr |
| Y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a | Holl aelodau'r Cyngor |

| | |
|---|---|
| National Health Service Trust all or some of whose hospital establishments or other facilities are situated in Wales | Chair and Non-Executive Director |
| National Library of Wales | Trustees appointed by the Welsh Ministers |
| National Museum Wales | Trustees appointed by the Welsh Ministers |
| Natural Resources Body for Wales known as Natural Resources Wales | Chief Executive, Chair and members |
| Office of Communications | All members |
| The Pensions Advisory Service | Directors |
| Pensions Ombudsman appointed under section 145 of the Pension Schemes Act 1993(l) and any deputy to that Ombudsman appointed under section 145A of that Act | |
| Pension Protection Fund | All members, and the Ombudsman for the Board of the Pension Protection Fund appointed under section 209 of the Pensions Act 2004(m) and any deputy to that Ombudsman appointed under section 210 of that Act |
| Pensions Regulator | All members, and committee members established by the Pensions Regulator under section 9 of the Pensions Act 2004(n) |
| Person holding a politically restricted post, within the meaning of Part 1 of the Local Government and Housing Act 1989(o), in:<br>(a) a local authority in Wales, within the meaning of that Part,<br>(b) a National Park Authority for a National Park in Wales | |
| Police and Crime Commissioner as established by section 1 of the Police Reform and Social Responsibility Act 2011(p), and any Deputy appointed by the Commissioner under section 18 of that Act | |
| Professional Standards Authority for Health and Social Care | All members |
| Qualifications Wales | All members |
| Rent assessment committees for an area or areas every part of which is in Wales | All members of a panel established under Schedule 10 to the Rent Act 1977(q) |
| Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales | Commissioners |
| Sianel Pedwar Cymru | All members |
| Social Care Wales | All members |
| Special Educational Needs Tribunal for Wales | All members |
| Special Health Authority performing functions partly or wholly in respect of Wales | Chair and all members, other than a member who is also an employee of the Authority |
| Sports Council for Wales known as Sport Wales | All members |
| Statistics Board established by the Statistics and Registration Service Act 2007(r) | All members |
| Student Loans Company Limited | Chair and Chief Executive |
| Transport for Wales | Directors |
| Upper Tribunal | All members, other than Judges of the Upper Tribunal(s) |
| Valuation Tribunal for Wales | All members |
| Wales Audit Office | All staff and auditors providing audit services |

| | |
|---|---|
| Chyflafareddu | |
| Y Gwasanaeth Tân ac Achub | Arolygydd neu Arolygydd Cynorthwyol a benodwyd o dan adran 28 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(ff) |
| Y Gweinyddwr Annibynnol Cwynion Dŵr Daear a benodwyd o dan adran 21 o Ddeddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993(g) a pharagraff 27 o Atodlen 7 iddi | |
| Hybu Cig Cymru | Yr holl aelodau |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | Yr Ymddiriedolwyr a benodwyd gan Weinidogion Cymru |
| Yr Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol | |
| Yr Ombwdsmon Pensiynau a benodwyd o dan adran 145 o Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993(ng) ac unrhyw ddirprwy i'r Ombwdsmon hwnnw a benodwyd o dan adran 145A o'r Ddeddf honno | |
| Panel Dyfarnu Cymru | Yr holl aelodau |
| Person sy'n dal swydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(h), a hynny mewn:<br>(a) awdurdod lleol yng Nghymru, o fewn ystyr y Rhan honno,<br>(b) Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru | |
| Y Pwyllgor Cynghori ar Bathogenau Peryglus | Yr holl aelodau |
| Y pwyllgor cynghori i Gymru a sefydlwyd o dan adran 5(1) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999(i) | Yr holl aelodau |
| Y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys | Y Cadeirydd |
| Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru | Y Cadeirydd |
| Pwyllgorau asesu rhenti ar gyfer ardal neu ardaloedd y mae pob rhan ohoni neu ohonynt yng Nghymru | Holl aelodau panel a sefydlwyd o dan Atodlen 10 i Ddeddf Rhenti 1977(j) |
| Y Rheoleiddiwr Pensiynau | Yr holl aelodau, ac aelodau'r pwyllgorau a sefydlwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau o dan adran 9 o Ddeddf Pensiynau 2004(l) |
| Y Sefydliad Rheoli Morol | Yr holl aelodau |
| Sianel Pedwar Cymru | Yr holl aelodau |
| Student Loans Company Limited | Y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr |
| Y Swyddfa Annibynnol ar gyfer Ymddygiad yr Heddlu | Yr holl aelodau |
| Swyddfa Archwilio Cymru | Yr holl staff a'r archwilwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio i Swyddfa Archwilio Cymru neu Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Y Swyddfa Gyfathrebiadau | Yr holl aelodau |
| Swyddog Ardystio ac unrhyw swyddog ardystio cynorthwyol a chanddo swyddogaethau o dan Ddeddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992(ll) | Swyddog Ardystio ac unrhyw swyddog ardystio cynorthwyol |
| Trafnidiaeth Cymru | Y Cyfarwyddwyr |
| Tribiwnlys a gyfansoddwyd o dan adran 27 o | Yr holl aelodau |

| | |
|---|---|
| | to the Wales Audit Office or Auditor General for Wales |
| Water Services Regulation Authority | All members |
| Welsh Health Specialised Services Committee | Chair |
| Welsh Industrial Development Advisory Board | All members |
| Welsh Language Partnership Council | All members |
| Welsh Language Tribunal | All members |
| Welsh Revenue Authority | Chairperson and other non-executive members |

(a) 2005 c. 18. There have been amendments to Schedule 3 to this Act that are not relevant to this Order.

(b) 1998 c. 31. There have been amendments to paragraph 10(2) of Schedule 26 to this Act by section 53 of, and paragraphs 8 and 16(1) and (2) of Part 2 of Schedule 7 to, the Education Act 2005.

(c) 1999 c. 28.

(d) 1993 c. 39.

(e) S.I. 2010/288 (W. 37). Regulation 34(1)(f) was inserted by regulation 23(7) of the Community Health Councils (Constitution, Membership and Procedures) (Wales) (Amendment) Regulations 2015 (S.I. 2015/509 (W. 43)).

(e) See paragraph 3 of Annex 2 to the Scheme in Schedule 1 to the Firefighters' Pension Scheme (Wales) Order 2007 (S.I. 2007/1072 (W. 110)) and paragraph 3 of Schedule 5 to the Scheme in Schedule 1 to the Firefighters' Compensation Scheme (Wales) Order 2007 (S.I. 2007/1073 (W. 111)).

(f) 1992 c. 52.

(g) 1991 c. 56. Section 27A was inserted by section 35(1) of the Water Act 2003 (c. 37).

(h) S.I. 2010/288 (W. 37). Regulation 3(3A) was inserted by regulation 4(4), and regulation 6 was amended by regulation 6(2) and (3), of the Community Health Councils (Constitution, Membership and Procedures) (Wales) (Amendment) Regulations 2015 (S.I. 2015/509 (W. 43)).

(i) 2004 c. 21. Relevant amendments were made to section 28 of this Act by section 11 of the Policing and Crime Act 2017 (c. 3).

(j) 1993 c. 42. There have been amendments to paragraph 27 of Schedule 7 to this Act that are not relevant to this Order.

(k) 1993 c. 48. There have been amendments to section 145 of this Act that are not relevant to this Order.

(l) 2004 c. 35. There have been amendments to section 209 of this Act that are not relevant to this Order.

(m) 2004 c. 35. The Pensions Regulator is established by section 1 of this Act.

(n) 1989 c. 42.

(o) 2011 c. 13. There have been amendments to section 1 of this Act that are not relevant to this Order.

(p) 1977 c. 42. There have been amendments to Schedule 10 to this Act that are not relevant to this Order.

(q) 2007 c. 18.

(r) Judges of the Upper Tribunal are disqualified from being a Member of the Senedd, and from being a candidate to be a Member of the Senedd, by virtue of section 16(A1)(b) of, and the Table in Part 2 of Schedule 1A to, the Government of Wales Act 2006.

| | |
|---|---|
| Ddeddf Addysg 2005(m) ac Atodlen 3 iddi | |
| Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru | Yr holl aelodau |
| Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru | Yr holl aelodau |
| Tribiwnlys y Gymraeg | Yr holl aelodau |
| Y Tribiwnlys Haen Gyntaf | Yr holl aelodau |
| Tribiwnlys Prisio Cymru | Yr holl aelodau |
| Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru | Yr holl aelodau |
| Tribiwnlys y cyfeirir ato ym mharagraff 10 o Atodlen 26 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(n) | Yr holl aelodau |
| Tribiwnlysoedd Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apelau Cyflogaeth | Yr holl aelodau |
| Yr Uwch Dribiwnlys | Yr holl aelodau, ac eithrio Barnwyr yr Uwch Dribiwnlys(o) |
| Ymddiriedolaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol y mae pob un o'i hysbytai, neu ei chyfleusterau eraill, neu rai ohonynt, yng Nghymru | Y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Anweithredol |

(a) *Gweler* paragraff 3 o Atodiad 2 i'r Cynllun yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (O.S. 2007/1072 (Cy. 110)) a pharagraff 3 o Atodlen 5 i'r Cynllun yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (O.S. 2007/1073 (Cy. 111)).

(b) O.S. 2010/288 (Cy. 37). Mewnosodwyd rheoliad 34(1)(dd) gan reoliad 23(7) o Reoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) (Diwygio) 2015 (O.S. 2015/509 (Cy. 43)).

(c) 2007 p. 18.

(ch) 2011 p. 13. Gwnaed diwygiadau i adran 1 o'r Ddeddf hon nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(d) O.S. 2010/288 (Cy. 37). Mewnosodwyd rheoliad 3(3A) gan reoliad 4(4), a diwygiwyd rheoliad 6 gan reoliad 6(2) a (3), o Reoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) (Diwygio) 2015 (O.S. 2015/509 (Cy. 43)).

(dd) 1991 p. 56. Mewnosodwyd adran 27A gan adran 35(1) o Ddeddf Dŵr 2003 (p. 37).

(e) 2004 p. 35. Gwnaed diwygiadau i adran 209 o'r Ddeddf hon nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(f) 1993 p. 39.

(ff) 2004 p. 21. Gwnaed diwygiadau perthnasol i adran 28 o'r Ddeddf hon gan adran 11 o Ddeddf Plismona a Throsedd 2017 (p. 3).

(g) 1993 p. 42. Gwnaed diwygiadau i baragraff 27 o Atodlen 7 i'r Ddeddf hon nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(ng) 1993 p. 48. Gwnaed diwygiadau i adran 145 o'r Ddeddf hon nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(h) 1989 p. 42.

(i) 1999 p. 28.

(j) 1977 p. 42. Gwnaed diwygiadau i Atodlen 10 i'r Ddeddf hon nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(l) 2004 p. 35. Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau wedi ei sefydlu gan adran 1 o'r Ddeddf hon.

(ll) 1992 p. 52.

(m) 2005 p. 18. Gwnaed diwygiadau i Atodlen 3 i'r Ddeddf hon nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(n) 1998 p. 31. Gwnaed diwygiadau i baragraff 10(2) o Atodlen 26 i'r Ddeddf hon gan adran 53 o Ddeddf Addysg 2005 a pharagraffau 8 ac 16(1) a (2) o Ran 2 o Atodlen 7 iddi.

(o) Mae barnwyr yr Uwch Dribiwnlys wedi eu hanghymhwyso rhag bod yn Aelodau o'r Senedd, a rhag bod yn ymgeiswyr i fod yn Aelodau o'r Senedd, yn rhinwedd adran 16(A1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'r Tabl yn Rhan 2 o Atodlen 1A iddi.

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order designates, for the purposes of a Senedd Cymru election at which the poll is held on or after 5 April 2021, offices whose holders are disqualified from being a Member of the Senedd (but not from being a candidate to be a Member of the Senedd). The offices are described in the Schedule to this Order.

Other disqualifying offices and categories of person disqualified from being a Member of the Senedd (and in some cases from being a candidate to be a Member of the Senedd) are prescribed by section 16 of, and Schedule 1A to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32). This Order should be read with those provisions.

This Order revokes the National Assembly for Wales (Disqualification) Order 2015 (S.I. 2015/1536), though that Order continues to have effect for a Senedd Cymru election at which the poll is held before 5 April 2021.

---

© Crown copyright 2020

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi, at ddibenion etholiad i Senedd Cymru pan gynhelir y bleidlais ar neu ar ôl 5 Ebrill 2021, swyddi y mae eu deiliaid wedi eu hanghymhwyso rhag bod yn Aelodau o'r Senedd (ond nid rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd). Mae'r swyddi wedi eu disgrifio yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Mae swyddi eraill sy'n anghymhwyso a chategorïau o berson sydd wedi eu hanghymhwyso rhag bod yn Aelodau o'r Senedd (ac mewn rhai achosion rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd) wedi eu rhagnodi gan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) ac Atodlen 1A iddi. Dylai'r Gorchymyn hwn gael ei ddarllen gyda'r darpariaethau hynny.

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015 (O.S. 2015/1536), er bod y Gorchymyn hwnnw yn parhau i gael effaith ar gyfer etholiad i Senedd Cymru pan gynhelir y bleidlais cyn 5 Ebrill 2021.

©ⓗHawlfraint y Goron 2020

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£6.90

UK202011121008 11/2020

http://www.legislation.gov.uk/id/uksi/2020/1255

ISBN 978-0-348-21500-7